Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Llongau Masnach a Thrafnidiaeth Arall (Diogelu'r Amgylchedd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **29 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Llongau Masnach a Thrafnidiaeth Arall (Diogelu'r Amgylchedd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

- Rheoliadau Llongau Masnach (Atal Llygredd Aer ar Longau) 2008
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/253
- Rheoliad (EC) 782/2003
- Rheoliadau Llongau Masnach (Systemau Gwrth-halogi) 2009
- Rheoliad y Comisiwn (CE) 536/2008
  - Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992
  - Rheolau Trafnidiaeth a Gwaith (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Yn unol ag Atodlen 2 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, nid yw'r swyddogaethau gwneud gorchmynion, rheolau a rheoliadau sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 1, 3, 6, 7(4), 8, 10 a 15 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 ond yn arferadwy gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, i'r graddau y mae'r darpariaethau yn ymwneud â Chymru. Byddai unrhyw ddiwygiad i Reolau Trafnidiaeth a Gwaith (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 yn ddibynnol ar rai o'r pwerau hyn, a

fyddai'n golygu y byddai cytundeb Gweinidogion Cymru yn cael ei geisio i'r graddau y mae'r diwygiadau'n ymwneud â Chymru.

Felly, mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cytundeb Gweinidogion Cymru ac mae'r cytundeb hwnnw wedi'i roi.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n ymdrin ag asesiadau o'r effaith amgylcheddol at ddibenion penodol yn ymwneud â thrafnidiaeth, a sicrhau y bydd modd gweithredu'n gyfreithlon y darpariaethau diogelu'r amgylchedd sy'n ymwneud â llygredd aer (yn benodol, faint o sylffwr sydd mewn tanwyddau a ddefnyddir ar y môr) ac â systemau gwrth-halogi gyfreithlon pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r OS hefyd yn diweddaru cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 1999/32/EC, a gafodd ei diddymu a'i disodli (heb ddiwygiadau o sylwedd) gan Gyfarwyddeb (EU) 2016/802, yn Rheoliadau Llongau Masnach (Atal Llygredd Aer o Longau) 2008 ac yn diweddaru cyfeiriad sydd wedi dyddio at gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn Neddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/statutory-instruments/fopeBO0Y

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad, ac nid yw sylwedd y cywiriad yn sensitif yn wleidyddol. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cytuno i weithredu fel hyn yn sicrhau y bydd modd gweithio mewn ffordd gydlynol pryd bynnag y bo modd wrth baratoi'r llyfr statud fel ei fod yn gweithio'n iawn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd gweithredu fel hyn yn hyrwyddo eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth ar draws y DU. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.